
Cyngor Ieuenctid Cymru
Wales Youth Agency



# Neges

papurau achlysurol ar bynciau
i weithwragedd/wyr ieuenctid

## Pobl Ifanc, Gwaith Ieuenctid a Chynghorau Tref a Chymuned

# Pobl Ifanc, Gwaith Ieuenctid
# a
# Chynghorau Tref a Chymuned

Liam Kealy, Awst 1998
Cyngor Ieuenctid Cymru
Llys Leslie, Lôn y Llyn, Caerffili CF83 1BQ
Ffôn 01222 880088  Ffacs 01222 880824
Mae’r adroddiadau hyn hefyd ar gael ar ein we: http://wya.newi.ac.uk

## CYFLWYNIAD:

"Bron bob nos bydd rhwng pymtheg a deugain o ddynion ifanc yn ymgynnull yn y Llan ...Gwelir nifer tebyg yn Nolanog a Phontllogel...Yn y Llan byddant weithiau'n chwarae pêl-droed...bydd rhai'n llymeitian. Y prif atyniad yw un o'r siopau...neu'r palmant o flaen drws y siop sy'n lle uchel a da i weld pobl yn pasio heibio... byddant yn aros yno tan hanner nos bron gan yfed, ysmygu, bwyta, sgwrsio, baldorddan a sôn am y rhai sy'n pasio...

Caiff y criw ifanc gryn hwyl trwy wneud hwyl am ben y bobl hyn a thrwy gymryd rhan mewn ystrywiau. Byddant bob amser yn gwneud y drygau hyn yn y tywyllwch fel na ellir beio'r un ohonynt yn neilltuol ac ni byddant byth yn bradychu ei gilydd os bydd chwarae'n troi'n chwerw... bydd pobl sy'n cythruddo'r dynion ifanc yn agored i wahanol fathau o ddialedd...

Mae'r dynion ifanc hyn yn ffurfio grwp ieuenctid go bendant... Rai blynyddoedd yn ôl ceisiodd y Rheithor roi gwell cyfleusterau i'r dynion ifanc. Agorwyd yr hen ysgoldy iddynt am noson neu ddwy yn yr wythnos, a bu gemau megis tenis bwrdd ar gael iddynt. Ond bu'r dynion ifanc braidd yn ddirmygus o'r ymdrech onest hon i sianelu eu hegnion, a bu'r rhai a fanteisiodd ar y cyfleusterau'n afreolus a braidd yn ddinistriol... Yn ddiweddar bu Aelwyd Urdd Gobaith yn fwy llwyddiannus ac fe'i mynychwyd gan genethod yn ogystal â bechgyn. Ond cyfarfodydd ffurfiol yw'r rhain a drefnwyd gan y bobl ifanc gan oedolion... Nid ydynt yn cymryd lle cymdeithas draddodiadol dynion ifanc."

Cyfieithwyd o Life in the Welsh Countryside: Alwyn D.Rees, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. 1950

Bu gweithgareddau pobl ifanc yn destun pryder i gymunedau yng Nghymru ers cryn amser bellach. Codwyd y darn uchod o ymchwil a wnaed mewn cymuned wledig yn ystod hafau 1939 a 1940. Fodd bynnag, bydd llawer o bobl ifanc yn adnabod y darlun a geir fel portread cyfoes mewn llawer o bentrefi a threfi yng Nghymru.

Thema gyson i gymunedau trwy Gymru yw materion yn ymwneud â phobl ifanc. Ystyrir pobl ifanc naill ai fel problem, y mae'n rhaid gwneud rhywbeth yn ei chylch. Neu fe'u hystyrir yn fwy positif fel pobl â chyfraniad i'w wneud i fywyd y gymuned y dylid eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth a'r galluoedd personol, a'u helpa i wneud y cyfraniad hwnnw. Bydd cymunedau'n adnabod hefyd yr ystod o faterion a phroblemau a wynebir gan bobl ifanc heddiw. Mae'r rhain yn cynnwys y peryglon i bobl ifanc gan y mannau a ddefnyddir ganddynt; dirywiad yn yr ystod o gyfleusterau sydd ar gael i bobl ifanc neu hygyrchedd y cyfleusterau; y straen yn sgil dyfodol ansicr.

Mae Cynghtorau Tref a Chymuned trwy Gymru'n ymateb yn gadarnhaol i'r pryderon hyn ac mae nifer o gynghorau'n cyflwyno ystod o fesurau sy'n amcanu cefnogi pobl ifanc a'u hennill i gyfrannu at fywyd y gymuned.

Mae Cyngor Ieuenctid Cymru'n awyddus i gefnogi'r datblygiadau hyn ac yn ystod hydref 1997 trefnodd ddwy seminar a archwiliai rôl Cynghorau Tref a Chymuned mewn datblygu gwasanaethau i bobl ifanc. Synnwyd y Cyngor gan yr amrywiaeth o ddarpariaeth a ddaeth i'r wyneb yn ystod y ddwy seminar hon ac ymgymerodd â pharatoi'r ddogfen friffio hon i ledaenu gwybodaeth am ddatblygiadau ac i alluogi Cynghorau Tref a Chymuned eraill i sefydlu eu darpariaeth eu hunain.

Yn dilyn y seminarau anfonodd y Cyngor holiadur at rai'n cymryd rhan er mwyn cael mwy o fanylion am y ddarpariaeth a wneir a charwn ddiolch i'r cynghorau hynny a atebodd.

## MENTRAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED GYDA PHOBL IFANC

Ar y cyfan mae Cynghorau Tref a Chymuned yn cefnogi mentrau gyda phobl ifanc trwy weithredu chwech o themâu.  Sef:

- Sefydlu cynghorau ieuenctid cysgod
- Cyflogi gweithwyr ieuenctid
- Gweithredu prosiectau dros gyfnod penodedig
- Creu cyfleusterau i bobl ifanc a phlant
- Rhoi cymorth ariannol i grwpiau neu sefydliadau ieuenctid
- Cyfrannu at fentrau Aml-Asiantaeth (Casgwent, Caerfyrddin)

Dylid nodi na raid i'r un o'r mentrau hyn gau'r lleill allan ond y gallent fod yn gyd-ddibynnol.  Er enghraifft, gall cynghorau ieuenctid cysgod gynghori ar sefydlu cyfleusterau i bobl ifanc neu ar brosiectau eraill dros gyfnod penodedig.

### Sefydlu Cynghorau Ieuenctid Cysgod

Mae nifer o Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru wedi sefydlu cynghorau ieuenctid cysgod er mwyn denu pobl ifanc at fywyd cymunedol, eu galluogi i brofi'r prosesau democrataidd, cynghori'r cyngor ar faterion yn ymwneud â phobl ifanc a sut y gall y cyngor eu datrys ac i roi platfform i bobl ifanc i fynegi barn gyffredin.

Er enghraifft, mae Cyngor Tref Cei Newydd wedi gweithio gyda phobl ifanc i sefydlu Cyngor Ieuenctid.  Crewyd rhestr etholiadol o bobl ifanc 13-17 oed yn y dref a chynhaliwyd etholiadau dan reolau llywodraeth leol.  Etholwyd naw cynghorydd ieuenctid.  Derbyniodd Cyngor y Dref gymorth ariannol gan y Cyngor Sir cyfartal â chost y prosiect.

Mae Cyngor y Dref yn ystyried budd y prosiect fel un yn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan ym mywyd y gymuned; pwysleisio pwysigrwydd pobl ifanc i'r gymuned; gwrando ar farn pobl ifanc; cynnig  cyfrifoldeb i bobl ifanc a galluogi pobl ifanc i brofi prosesau democrataidd.  Agwedd fwyaf llwyddiannus y prosiect fu brwdfrydedd y bobl ifanc eu hunain.

Sefydlodd Cyngor Tref Bae Colwyn yntau gyngor ieuenctid. Aed â'r fenter ymlaen gan weithgor o gynghorwyr a sefydliadau eraill gan gynnwys y gwasanaeth ieuenctid, Dewisiadau Ieuenctid, yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfreithiwr.  Dosbarthwyd rhyw 2700 o holiaduron i bobl ifanc rhwng 11-17 oed.  Dychwelwyd 870 ac o'r rhain mynegodd 176 ddiddordeb mewn ffurfio cyngor ieuenctid.  Gwahoddwyd y 176 o bobl ifanc hyn i fynychu cyfarfod, a daeth 60 ynghyd. O'r cyfarfod hwn etholwyd 24 o bobl ifanc i gyngor ieuenctid, a etholodd swyddogion maes o law. Cefnogir y cyngor ieuenctid gan Glerc y Cyngor, sydd hefyd yn gweithredu fel cynghorwr i bobl ifanc.  Mae Cyngor y Dref hefyd wedi clustnodi cyllid sylweddol i'r cyngor ieuenctid, i'w gwario fel y gwêl yn dda.

Siaradodd Cadeirydd y cyngor ieuenctid yn y seminar yng Ngogledd Cymru a bu'n gadarnhaol am y datblygiad ac am y gefnogaeth a dderbyniai pobl ifanc gan Gyngor y Dref.  Disgrifiodd brosiect a gychwynnwyd gan y cyngor ieuenctid yn ymwneud ag adeiladu cyfleusterau chwaraeon i bobl ifanc mewn tair rhan o ranbarth y cyngor.  Codwyd waliau mabolgampau mewn ardaloedd a fynychwyd gan bobl ifanc a bu'r rhain yn boblogaidd iawn.  Roedd y prosiect yn fuddsoddiad o bwys gan Gyngor y Dref a dengys eu hymroddiad i bobl ifanc.

Yn y seminar yng Nghaerfyrddin disgrifiodd dau o siaradwyr eu profiad wrth weithio gyda Chynghorau Ieuenctid.  Disgrifiodd y cyntaf fenter a sefydlwyd gan Gyngor Tref Rhydaman a oedd yn debyg yn ei gweithrediad i eiddo Cei Newydd.  Fodd bynnag, roedd Cyngor Ieuenctid Cwmaman, a ddisgrifiwyd gan yr ail siaradwr yn unigryw o wahanol.

Sefydlwyd Cyngor Ieuenctid Cwmaman fel prosiect rhwng pobl ifanc a'r gwasanaeth ieuenctid. Gall pobl ifanc gymryd rhan yn “l dymuniad a gallu. Mae budd mewn hyn i bobl ifanc gan y gallant amrywio eu hymroddiad yn ôl effaith pwysau eraill yn eu bywydau. Llwyddodd y Cyngor Ieuenctid i sicrhau nawdd sylweddol gan y loteri i ddatblygu canolfan adnoddau i bobl ifanc yng Nghwmaman ac mae aelodau'r cyngor ar hyn o bryd yn gyfrifol am wario'r adnoddau hynny a goruchwylio'r adeiladu a'r datblygiadau ar y safle.

Derbyniodd y Cyngor Ieuenctid gefnogaeth gan Gyngor y Dref, yn yr un modd ag y mae Cynghorau Tref a Chymuned yn cynnig cymorth ariannol i sefydliadau eraill yn eu hardaloedd. Er hynny, am nad yw'r Cyngor Ieuenctid yn perthyn yn ffurfiol i Gyngor y Dref gall ddenu cyllid nad yw bob amser ar gael i Gynghorau Ieuenctid a gefnogir gan gyrff statudol.

Mae Cynghorau Tref a Chymuned eraill, gan gynnwys Abergwaun, Llanidloes, Caerfyrddin a Phen-coed wedi sefydlu cynghorau ieuenctid yn ddiweddar. yn Abergwaun gwahoddwyd sefydliadau ieuenctid y dref i anfon cynrychiolwyr at gyngor ieuenctid a ymgymerodd â gweithgareddau tebyg i'r rhai a ddisgrifiwyd. Ymgymrodd Cyngor Tref Llanidloes â phroses debyg fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer Llanidloes 2000. Roedd pobl ifanc felly mewn safle i leisio'u barnau a'u syniadau am ddatblygiad y dref yn y dyfodol.

Mae'n amlwg felly fod nifer o ddulliau'n cael eu defnyddio i gysylltu â phobl ifanc er mwyn sicrhau bod barnau trawsdoriad o bobl ifanc yn cael eu darganfod a bod pobl ifanc gyda gwahanol ddiddordebau'n gallu cyfrannu at y broses ddemocrataidd.

**Cyflogi Gweithwyr Ieuenctid**

Mae nifer o Gynghorau Tref a Chymuned, yn enwedig yn Wrecsam, wedi ymdrechu i gyflogi gweithwyr ieuenctid fel gweithwyr deoledig, i ddod i gysylltiad â phobl ifanc ar y stryd, yn y parc neu mewn sefyllfaoedd eraill lle bydd pobl ifanc yn ymgynnull. Pwrpas y math hwn o waith yw datblygu rhaglen o weithgareddau sy'n berthnasol i'r bobl ifanc mae'r gweithiwr yn dod i gysylltiad â nhw. Mae gwaith ieuenctid deoledig yn ffordd lwyddiannus iawn o weithio gyda phobl ifanc ac mae Cynghorau Tref a Chymuned wedi bod yn flaengar iawn wrth greu darpariaeth o'r fath.

Er enghraifft, mewn prosiect a roddwyd mewn grym gan Gyngor Cymuned Llantrisant a Chanolfan Addysg Gymunedol Beddau, mae'r cyngor cymuned yn gweithio mewn partneriaeth a'r gwasanaeth addysg gymunedol i gyflogi gweithiwr deoledig sy'n cychwyn amrywiaeth o brosiectau gyda phobl ifanc. Mae'r math hwn o bartneriaeth yn bwysig er mwyn dod ag ystod o adnoddau i waith ieuenctid.

Yn Wrecsam mae'r gwasanaeth ieuenctid a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn gweithio trwy gytundebau lefelau gwasanaeth er mwyn cyllido gwaith deoledig a chwrdd â'r gofynion gweinyddol a rheoli angenrheidiol. Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn ariannu'r gwaith ac mae'r gwasanaeth yn darparu'r systemau gweinyddol a rheoli.

Mae Cyngor Cymuned Offa, er hynny, yn cyflogi ei weithiwr ei hun fel rhan o'r tîm gwaith deoledig yn Wrecsam. Cyflogwyd y gweithiwr yn llawn amser ers nifer o flynyddoedd a bu modd sefydlu amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys waith amgylcheddol, clybiau gwaith cartref a gweithgareddau hamdden.

**Gweithredu Prosiectau dros Gyfnod Penodedig**

Mae a wnelo nifer o Gynghorau Tref a Chymuned â darparu prosiectau dros gyfnod penodedig i bobl ifanc, yn aml ar y cyd ag asiantaethau eraill.

Er enghraifft cydweithiodd Cyngor Tref Ystradgynlais ac Adran Gymunedol Powys, yn ystod haf 1997 i ddarparu Teenscheme i bobl ifanc yr ardal. Golygai hyn drefnu amrywiaeth o weithgareddau dros yr haf i bobl ifanc. Cysylltodd gweithwyr â phobl ifanc a ymgasglai y tu allan

i'r llyfrgell, y Neuadd Les a rhannau eraill o'r pentref. Dros gyfnod yr haf cymerodd 54 o bobl ifanc ran o ganlyniad i'r gwaith hwn.

Cydgysylltodd arweinydd y prosiect hefyd ag asiantaethau lleol ac aelodau o'r cyhoedd er mwyn egluro amcanion y prosiect. Bu Cyngor y Dref, rheolwyr cyfleusterau lleol, yr Heddlu, trigolion a phobl ifanc yn gadarnhaol ynghylch y prosiect. Ymhlith canlyniadau'r prosiectoedd nifer y bobl ifanc a gymerodd ran, lleihad mewn camddefnyddio alcohol a fandaliaeth; a sylwadau positif gan rieni a ganmolai'r amrywiaeth o weithgareddau a drefnwyd yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae Cyngor Tref Ystradgynlais wedi noddi Teenscheme eto yn 1998, a sefydlwyd cynlluniau tebyg mewn rhannau eraill o Bowys, ar y cyd â Chynghorau Tref a Chymuned.

Mae nifer o Gynghorau Tref a Chymuned eraill yn cefnogi cynlluniau chwarae i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Mae Cyngor Cymuned Dynfant yn Abertawe wedi trefnu cynllun chwarae ers 14 blynedd erbyn hyn. Amcenir y cynllun at bobl ifanc 5-12 oed a rhed am bythefnos.

Mae Cyngor Tref Casgwent wedi rhedeg cynllun chwarae ers nifer o flynyddoedd, ar gyfer oedran iau. Fodd bynnag, rhedir y cynllun gan ryw 24 o arweinwyr chwarae rhwng 18 - 24 oed. Dyma enghraifft dda o'r modd y gellir defnyddio diddordebau a doniau pobl ifanc er lles aelodau eraill o'r gymuned. Mae profiadau megis rhedeg cynlluniau chwarae hefyd yn creu llwyfan i bobl ifanc ddysgu am wahanol yrfaoedd, gan gynnwys gwaith chwarae, gwaith ieuenctid a hamdden.

**Creu Cyfleusterau i Bobl Ifanc a Phlant**

Fel rhan o'i strategaeth ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc, mae Cyngor Tref Bae Colwyn wedi codi waliau mabolgampau mewn tri lle yn ardal y Cyngor. Meysydd chwarae aml-bwrpas yw'r rhain sy'n rhoi cyfleusterau i chwarae pêl-droed a phêl fasged. Gellir corffori seddi yn y cynllun ac felly hefyd biniau sbwriel a byrddau picnic. Gwneir waliau mabolgampau o ddefnydd gwrth-fandaliaeth a hawdd ei gynnal a chadw. Gellir gwneud yr arwynebedd o ddefnydd sy'n lleddfu gwrthdarawiadau.

Mae waliau mabolgampau'n boblogaidd iawn a defnyddir rhai Bae Colwyn yn helaeth gan bobl ifanc. Maent yn rhoi cyfle i bobl ifanc chwarae pêl-droed, pêl fasged ac amrywiaeth o chwaraeon eraill yn ogystal â bod yn fan cymdeithasol.

Datblygwyd menter debyg gan Gyngor Tref y Drenewydd, a greoedd man cyfarfod ac aml-gampau allanol i bobl ifanc. Defnyddir y man chwaraeon yn helaeth ar raddfa anffurfiol a hoffai'r Cyngor weld defnyddio'r man chwaraeon mewn ffordd fwy ffurfiol.

Mae Cyngor Tref Casgwent wedi cymryd rhan mewn dau brosiect i greu cyfleusterau i bobl ifanc. Y prosiect cyntaf oedd sefydlu canolfan gymuned, sydd o reidrwydd yn gwasanaethau nifer o wahanol ddefnyddwyr gan gynnwys pobl ifanc. Yn fwy diweddar, mae Cyngor y Dref wedi chwarae rhan mewn sefydlu elusen, Chepstow Action for Youth, sy'n ceisio creu canolfan galw-heibio i bobl ifanc. Bu Cyngor Tref Bae Colwyn yn ceisio sefydlu canolfannau galw-heibio i bobl ifanc. Mae Canolfan Cymuned Llangynidyr yn darparu ei chyfleusterau'n ddi-dâl i grwpiau o bobl ifanc. Mae'r cyngor cymuned lleol a'r ganolfan gymunedol yn cydweithio i gefnogi mentrau fel y rhain. Mae'r cyngor cymuned hefyd yn cefnogi clwb chwaraeon i ieuenctid.

**Darparu Cymorth Ariannol i Sefydliadau Ieuenctid**

Mae gan Gynghorau Tref a Chymuned hanes hir o ddarparu grantiau i sefydliadau i bobl ifanc. Dyma gyfraniad pwysig y gall cynghorau ei wneud, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Cymru lle ni bo ond ychydig o gyfleusterau i bobl ifanc. Gall Cynghorau Tref a Chymuned annog datblygiadau newydd trwy ddarparu cymorth grant, yn ogystal â thrwy gefnogi sefydliadau cyfredol. Er enghraifft. mae Cyngor Tref Rhuthun newydd roi cymorth grant i grwp o bobl ifanc sydd am sefydlu cyfleusterau a gweithgareddau i bobl ifanc y dref. Gallai Cynghorau Tref a

Chymuned fod yn weithredol mewn annog sefydliadau ieuenctid i geisio am gymorth grant er mwyn estyn lefel eu gweithgareddau.

**Mentrau Aml-Asiantaeth**

Mae nifer o Gynghorau Tref a Chymuned wedi sôn am eu hymwneud â mentrau aml-asiantaeth wedi'u canolbwyntio ar bobl ifanc.  Mae Cynghorau Tref a Chymuned mewn safle da i gyfrannu tuag at fentrau o'r fath, gan eu bod yn ganolog i fywyd y gymuned leol.

Y bartneriaeth fwyaf cyffredin y soniwyd amdani oedd honno rhwng cyngor cymuned a'r cyngor sir cyfatebol ac mae'r ddogfen hon wedi rhoi enghreifftiau eisoes o bartneriaethau felly. Serch hynny, bydd Cynghorau Tref a Chymuned hefyd yn gweithio gyda'r Heddlu, grwpiau eglwys lleol, cymdeithasau trigolion ac elusennau lleol.

Er enghraifft, cychwynnodd y prosiect yn Rhuthun y soniwyd amdani eisoes trwy ymwneud Cyngor y Dref a dwy elusen yn y dref. Oddi ar hynny tynnodd gefnogaeth gan y gwasanaeth ieuenctid a'r uned diogelwch cymunedol, ill dwy'n adrannau cyngor sir, asiantaeth fenter leol sydd wedi cynorthwyo'r bobl ifanc i baratoi cynllun busnes a'r cyngor lleol er gwasanaethau gwirfoddol.

Mae'r prosiect yn Y Drenewydd a ddisgrifiwyd yn cynnwys Cyngor y Dref, yr Heddlu, yr Eglwys Efengylaidd a chymdeithasau trigolion. Bu Cyngor Tref Casgwent yn cydweithio â'r gwasanaethau hamdden i greu cynlluniau chwarae a bu Llanfihangel Rhos-y-Corn yn gweithio gyda Chyngor Chwaraeon Cymru a gwahanol grwpiau lleol i sefydlu cyfleusterau chwaraeon i blant a phobl ifanc.

Mae gweithio aml-asiantaeth yn dod â nifer o fuddiannau i fentrau'n canolbwyntio ar bobl ifanc. Gwahanol fathau o fedr a gwybodaeth, gwahanol adnoddau o safbwynt systemau cyllid, gweinyddu a rheoli a chyd-gefnogaeth yw'r rhai amlycaf.

Mae Cyngor Ieuenctid Cymru'n argymell i gynghorau tref a chymuned geisio cefnogaeth asiantaethau eraill wrth ddatblygu mentrau gyda phobl ifanc. Yn yr un modd, dylai cynghorau tref a chymuned roi eu cefnogaeth a'u cymorth i'r mentrau a ddatblygwyd gan asiantaethau eraill gan fod hynny'n cyfoethogi'r prosiect.

## CODI'R ARIAN

Codwyd yr arian ar gyfer y rhan fwyaf o'r mentrau a ddisgrifiwyd naill ai gan gyngor tref neu gymuned yn rhinwedd ei swyddogaeth neu trwy gydweithio â sefydliadau eraill.

Gall Cynghorau Tref a Chymuned godi arian yn rhinwedd eu swyddogaeth trwy gyfrwng arian ar gyfer darpariaeth hamdden neu fel menter diogelwch cymunedol. Mae Rhan 3 y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu yn rhoi grym i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru i godi arian ar gyfer mentrau diogelwch cymunedol. Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd gosod camerâu mae rhai cynghorau wedi dehongli'r grym yn fwy agored a defnyddio'r arian er mwyn datblygu mentrau diogelwch cymunedol gyda phobl ifanc.

## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Soniwyd llawer yn y ddogfen hon am fuddiannau cyd-weithio â sefydliadau eraill.  Y brif berthynas y dylid ei datblygu yw honno gyda'r cyngor sir cyfatebol.  Mae gan gynghorau sir ystod o adnoddau ar gael, a all gefnogi cynghorau tref a chymuned yn eu gwaith, (boed gyllid neu drefniadau yswiriant). Ar ben hynny, mae nifer o gynghorau sir yng Nghymru'n dechrau datblygu eu rôl fel galluogwyr yn hytrach na darparu pecyn cyfan o wasanaethau eu hunain.

Mae'r rhestr a ganlyn yn rhoi syniad am y math o gefnogaeth a all fod ar gael gan gynghorau sir:

- Cyfleusterau rhestri gweithwyr
- Cyfleusterau yswiriant
- Trefniadau cyflogi
- Rheoli a goruwchwylio gweithwyr
- Cyngor ar nawdd
- Gwybodaeth
- Ystod o weithgareddau i bobl ifanc
- Hybu ariannol
- Rhwydweithiau
- Profion yr Heddlu
- Ymchwil
- Cytundebau ar, lefel gwasanaethau

Bydd maint a math y gefnogaeth gan gynghorau sir yn amrywio a dylai cynghorau tref a chymuned gysylltu â'u cyngor sir eu hunain. Byddai'r adran gwasanaethau ieuenctid yn fan cychwyn priodol a cheir rhestr gyswllt yn yr Atodiad...

## CRYNODEB

I grynhoi mae Cyngor Ieuenctid Cymru'n argymell y dylai Cynghorau Tref a Chymuned geisio rhoi mentrau ar waith ar gyfer pobl ifanc yn eu hardaloedd eu hunain. Rydym yn argymell y dylid dwyn y mentrau hyn ymlaen ar y cyd â sefydliadau eraill, yn enwedig ag adran Gwasanaeth Ieuenctid y cyngor sir perthnasol.

Mae Cyngor Ieuenctid Cymru'n awyddus i gefnogi Cynghorau Tref a Chymuned gyda'u hymdrechion. Mae'r Asiantaeth yn cyhoeddi cylchlythyr bob chwech wythnos, Pigion, sy'n rhoi gwybodaeth am waith ieuenctid i sefydliadau. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hefyd gylchgrawn ddwywaith y flwyddyn i weithwyr ieuenctid. Yn yr un modd mae'r Cyngor yn rhedeg gwasanaeth ymholiadau, a gwasanaeth llyfrgell gyda stoc helaeth o lyfrau, gemau ac adnoddau eraill.

Yn olaf, gall Cyngor Ieuenctid Cymru ddarparu cefnogaeth ymgynghorol i Gynghorau Tref a Chymuned wrth iddynt gychwyn datblygu gwaith gyda phobl ifanc.

**Llyfryddiaeth:**

**Carolyn Willow (1997) Hear! Hear! Promoting Children and Young People's Participation in Local Government. ISBN 1 8979 57 25 4 Ar gael oddi wrth Local Government Information Unit 1-5 bath Street Llundain EC1V 9QQ Ffôn: 0171 608 1051. Pris £15.00**

**Save the Children (1997) All Together Now: Community Participation for Children and Young People. ISBN 1 899120 53 X Ar gael oddi wrth Save the Children, Publication Sales, 17 Grove Lane, Llundain SE5 8RD Ffôn: 0171 703 5400**

**Matthews H, Limb M, Taylor M (1997) The Right to Say: The development of youth councils/forums within the UK. Ar gael oddi wrth the Centre for Children and Youth, Park Campus, Nene College of Higher Education, Northampton. NN2 7AL Ffôn: 01604 735500**